# Troellwr treftadaeth fyw

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu fel rhan o broject "LIVIND – Treftadaeth ddiwylliannol greadigol a byw fel adnodd ar gyfer rhanbarth Dimensiwn y Gogledd".

Printiwch ar bapur trwchus, torrwch ar y llinell a rhowch bin hollt yn y canol.

## Troellwr treftadaeth fyw

### *Sut mae defnyddio'r teclyn yma?*

1. Gallwch wneud yr ymarfer yma ar eich pen eich hunan neu gyda rhywun arall.
2. Dewiswch fath o dreftadaeth fyw sy'n bwysig i chi (e.e. dathliad, crefft llaw, bwyd traddodiadol, gêm, gweithgaredd sy'n ymwneud â natur).
3. Edrychwch ar y gwahanol deitlau ar ymyl y troellwr a dewiswch un neu fwy ohonyn nhw.
4. Meddyliwch am rai o'r cwestiynau o dan y teitl a sut maen nhw'n berthnasol i'ch treftadaeth fyw. Trafodwch atebion posib gyda'ch partner neu ysgrifennwch nhw ar ddarn o bapur.

   Gallwch hefyd feddwl am ragor o gwestiynau eich hunan, a'u hateb!

Grŵp gwaith: Ira Vihreälehto, Athro, Cymdeithas Addysg Treftadaeth Ddiwylliannol yn y Ffindir; Sari Marenk, Athro dosbarth, bwrdeistref Tampere, Maiju Hirviniemi, Athro plant meithrin, Fforwm Dinasyddion, Leena Marsio, Uwch Gynghorydd, Asiantaeth Treftadaeth y Ffindir • Dylunio: Studio Strandman • Ysbrydoliaeth: Siart Olwyn Datblygu Cynaliadwy 10/2018. CC BY 4.0.

Museovirasto Museiverket

Föreningen för kulturarvsfostran i Finland

LIVIND Creative and Living Cultural Heritage as a Resource for the Northern Dimension Region

AMGUEDDFA CYMRU

https://opi.aineetonkulttuuriperinto.fi/ • https://wiki.aineetonkulttuuriperinto.fi/
https://kulttuurinvuosikello.fi/ • leena.marsio@museovirasto.fi

# *Gyda'r Troellwr Treftadaeth Fyw gallwch neidio i fyd treftadaeth ddiwylliannol!*

Gallwch **gynnal sgwrs syml** am dreftadaeth ddiwylliannol, neu arwain dysgwyr o bob oed i feddwl yn ddyfnach am y pwnc. Y nod yw cryfhau cyfranogiad plant a phobl ifanc, a sicrhau ffordd hyblyg o drafod treftadaeth ddiwylliannol.


Bydd **y cwestiynau ar y troellwr** yn sbarduno trafodaeth am dreftadaeth ddiwylliannol fyw a datblygiad cynaliadwy. Traddodiadau byw sy'n rhan o fywydau pobl yw ystyr treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol. Mae'n cynnwys gwyliau, crefftau, dawnsio, cerddoriaeth, traddodiad llafar, a thraddodiadau yn ymwneud â bwyd a byd natur. Mae'n cyffwrdd pob agwedd ar fywyd – gŵyl, gwaith a diddordebau.

Mae'r **teitlau ar y troellwr** yn nodi'r gwahanol werthoedd sydd yn sail i gwricwlwm y Ffindir. Maent yn hyrwyddo dysgu ar y cyd rhwng disgyblion ac athrawon.

*Meddwl a dysgu meddwl (L1) Cymhwysedd, rhyngweithio a mynegiant diwylliannol (L2) Hunanofal a sgiliau bob dydd (L3) Aml-lythrennedd (L4) Cymwyseddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (L5) Sgiliau gwaith a mentergarwch (L6) Cyfrannu, dylanwadu a chreu dyfodol cynaliadwy. Amgylchedd (L2, L7) Dysgu (L1, L2, L3, L5) Rhyngweithio (L1, L21, L7) Diwylliant (L2, L4, L7) Economi (L3, L6).*

## DYSGU

1. Sut wnaethoch chi ddysgu am y dreftadaeth yma? Pwy ddysgodd chi?
2. Sut mae dysgu am y dreftadaeth yma wedi bod yn ddefnyddiol i chi?
3. Ydych chi wedi dysgu pobl eraill am y dreftadaeth yma? Sut?
4. Sut mae datblygiad technolegol wedi effeithio ar y dreftadaeth yma, os o gwbl?
5. Ydych chi'n meddwl y bydd y dreftadaeth yma'n parhau yn y dyfodol?



## RHYNGWEITHIO

1. Allwch chi wneud ffrindiau newydd drwy'r dreftadaeth yma? Pam, neu pam ddim?
2. Ydy'r dreftadaeth yma'n gwneud i chi deimlo'n dda? Pam, neu pam ddim?
3.Oes modd i unrhyw un gymryd rhan yn y dreftadaeth yma (meddyliwch am oedran, rhywedd, cefndir diwylliannol, anabledd)? Pam, neu pam ddim? Os na, oes modd ei newid? Ydych chi am iddo newid?
4. Ydy pobl eraill yn gwerthfawrogi'r dreftadaeth yma? Sut mae'n ymddangos i'r bobl hynny nad ydyn nhw (eto) wedi bod yn rhan ohoni?



## YR AMGYLCHEDD

1. Ydy'r dreftadaeth yma wedi'i chysylltu â natur? Sut?
2. Pa ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth? O ble mae'r defnydd wedi cael ei fewnforio neu allan o beth mae wedi'i wneud?
3. Sut mae arfer y dreftadaeth yn effeithio ar natur?
4. A fyddai modd arfer y dreftadaeth yma mewn ffordd fwy ecogyfeillgar? Sut?
5. Ydy'r dreftadaeth yma yn gallu ein helpu i ddysgu rhagor am natur? Sut?



## DIWYLLIANT

1. Pwy sy'n arfer y dreftadaeth yma? Pam?
2. Sut mae'r dreftadaeth yn cael ei dysgu i bobl eraill (drwy ysgrifen, ar lafar, drwy luniau, drwy wneud)
3. Pe bai'r dreftadaeth yma'n cael ei cholli, beth fyddai'n cael ei golli gyda hi, os o gwbl? Er enghraifft, a oes geiriau neu wrthrychau arbennig sy'n cael eu defnyddio i arfer y dreftadaeth allai dreftadaeth i arfer y dreftadaeth allai gael eu colli?
4. Sut mae'r dreftadaeth wedi newid yn y gorffennol, neu a oes modd ei newid dros amser?



## YR ECONOMI

1.Oes modd cymryd rhan yn y dreftadaeth yma am ddim?
2. Oes modd defnyddio'r dreftadaeth yma i wneud arian? Sut?
3. Ydy'r dreftadaeth yma'n cael ei hyrwyddo fel cynnyrch neu wasanaeth? Ble a sut?
4. Ydy'r dreftadaeth yma'n swydd i rywun?
5. Oes modd i fasnachaeth ddifetha'r dreftadaeth yma os bydd gormod o bwyslais yn cael ei roi ar wneud arian? Sut?



**Cyfieithiad gan:** Amgueddfa Cymru